

Rhif: WG19941



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

Llywodraeth Cymru

## Tuag at Ddyfodol Diwastraff Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned

Crynodeb o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad  
ar Raglen Atal Gwastraff Cymru

Rhagfyr 2013



# Cynnwys

Cynnwys .....	1
Cyflwyniad .....	2
Ymatebion.....	2
Gwastraff Cartref.....	3
<i>Gwastraff Diwydiannol a Masnachol</i> .....	8
<i>Gwastraff Adeiladu a Dymchwel</i> .....	19
<i>Cwestiynau cyffredinol a thechnegol eraill</i> .....	21
Rhestr Lawn o Ymatebwyr.....	28

## Cyflwyniad

Lansiwyd ymgynghoriad ar Raglen Atal Gwastraff Cymru ar 28 Mawrth 2013 ac roedd ar agor ar gyfer ymatebion tan 20 Mehefin 2013. Nodwyd cyfanswm o 14 o gwestiynau yn yr ymgynghoriad ar gyfer ymatebion, y gellid eu cyflwyno'n electronig drwy e-bost neu mewn copi caled drwy'r post.

Roedd cefnogaeth gyffredinol ar gyfer y cynigion a oedd yn cael eu cyflwyno yn y ddogfen ymgynghori, ond hefyd rhai pryderon am opsiynau penodol a manylion gweithredu yng Nghymru.

Cynhaliwyd pedwar gweithdy ymgynghori hefyd gyda phartion â diddordeb. Roedd y rhain er mwyn datblygu ein cynigion ymhellach ar eco-arloesedd yn y sector gweithgynhyrchu yng Nghymru, gwastraff adeiladu a dymchwel a chymorth busnes i fusnesau bach a chanolig eu maint (2 weithdy).

Mae'r holl ymatebion wedi'u hystyried yn llawn wrth greu Rhaglen Atal Gwastraff Cymru. Isod ceir crynodeb o'r ymatebion, wedi'u trefnu yn y pedwar maes allweddol canlynol:

- Gwastraff Cartref
- Gwastraff Diwydiannol a Masnachol
- Gwastraff Adeiladu a Dymchwel
- Cwestiynau cyffredinol a thechnegol eraill

Cyhoeddir atodiad sy'n cynnwys ymatebion i'r ymgynghoriad, a nodiadau o weithdai'r ymgynghoriad fel atodiad ar wahân i ategu'r crynodeb hwn.

## Ymatebion

Cafwyd cyfanswm o 31 o ymatebion drwy e-bost ar gyfer yr ymgynghoriad hwn. Roedd yr ymatebion yn cynrychioli grwpiau sefydliad fel a ganlyn:

Sefydliadau cynrychioli busnes - 9 ymatebydd (29%)

Ymgynghori – 1 ymatebydd (3%)

Corff anllywodraethol amgylcheddol – 1 ymatebydd (3%)

Y sector cyhoeddus – 4 ymatebydd (13%)

Y sector preifat – 11 o ymatebwyr (35%)

Menter Gymdeithasol/elusen – 2 ymatebydd (6%)

Sefydliad sy'n darparu a ariennir gan Lywodraeth Cymru – 3 ymatebydd (10%)

Gwnaethom hefyd gael chwe ymateb gan aelodau o'r cyhoedd drwy Survey Monkey; roeddent yn cwmpasu'r cwestiynau ar atal gwastraff cartref yn unig.

## Gwastraff Cartref

### Cwestiwn Ymgynghori HW1:

Rydym yn taflu llawer o wastraff bwyd bob blwyddyn. Mae'n cyfrif am tua un rhan o bump o'r holl wastraff cartref yng Nghymru. Mae cartref cyffredin yn taflu gwerth tua £480 o fwyd bob blwyddyn, ac mae hyn yn codi i £680 ar gyfer cartrefi â phlant.

A fyddai gennych ddi-ddordeb mewn gwybod mwy am leihau eich gwastraff cartref? Mae angen i ni gyfathrebu â phawb ynglŷn â sut gallant leihau eu gwastraff bwyd hefyd. Beth yn eich barn chi yw'r ffyrdd gorau i ni wneud hynny? Er enghraifft, papurau newydd lleol, o berson rydych yn ei adnabod yn eich cymuned, drwy glybiau megis clybiau chwaraeon.

Roedd mwyafrif yr ymatebion yn ffafriol a/neu gwnaethant argymhellion ar gyfer cyflwyno cyfathrebiadau ac amlinellwyd y camau gweithredu y maent eisoes wedi eu rhoi ar waith i leihau gwastraff bwyd. Yr ymateb cyffredinol oedd y byddai amrywiaeth o sianeli cyfathrebu'n cael eu defnyddio i gyflawni'r rhaglen waith hon.

Y prif faterion a godwyd oedd:

- Ceir llawer o gefnogaeth eisoes ar gyfer ymgyrchoedd gwastraff bwyd lleol megis Hoffi Bwyd Casáu Gwastraff.
- Cytunwyd yn gyffredinol bod mwy i'w wneud o ran rhoi negeseuon i ddefnyddwyr.
- Roedd pryder bod Llywodraeth Cymru'n targedu deunyddiau sy'n codi dim ond mewn tunelleddau bach mewn gwastraff cartref a/neu nid ydynt yn beryglus.
- Roedd pryder y gallai hyrwyddo atal gwastraff bwyd effeithio ar allu awdurdodau lleol i gyflawni eu targedau ailgylchu/compostio. A hefyd effeithio ar gytundebau cytundebol gyda chontractwyr ar gyflenwi isafswm tunelledd.

Ymhlith yr argymhellion roedd:

- Awdurdodau lleol sydd yn y sefyllfa orau i gyflawni negeseuon atal gwastraff bwyd i'r cyhoedd.
- Os bydd awdurdodau lleol yn cefnogi lleihau gwastraff bwyd bydd hyn yn eu helpu i gyflawni eu targedau, lleihau'r gwastraff bioddiraddiadwy sy'n mynd i'w dirlenwi, o dan Reoliadau'r Cynllun Lwfansau Tirlenwi (Cymru) 2004.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gynorthwyo'r ymgyrch lleihau gwastraff bwyd sefydledig 'Hoffi Bwyd, Casáu Gwastraff' ac ehangu arno. Caiff hyn ei reoli drwy'r grŵp Cyfathrebu Gwastraff, y grŵp Llywio Atal Gwastraff a'i gynorthwyo gan y Rhaglen Newid Gydweithredol.

Fel yr amlinellir yn y ddogfen ymgynghori, mae gwastraff bwyd yn flaenoriaeth o ran atal gwastraff cartref. Mae'r un adran hefyd yn nodi bod gwastraff bwyd ag effaith amgylcheddol uchel.

Mae'r ddogfen hefyd yn nodi y caiff ymgyrch newid ymddygiad defnyddwyr i atal gwastraff (gan gynnwys bwyd) ei datblygu. Caiff hyn ei reoli drwy'r grŵp Cyfathrebu Gwastraff a'r Grŵp Llywio Atal Gwastraff. Bydd yr ymgyrch hon yn ehangu ar roi negeseuon i ddefnyddwyr ac yn ystyried argymhellion i'r ymgynghoriad hwn ar gyfer mathau gwahanol o ymagweddau cyfathrebu.

### **Cwestiwn Ymgynghori HW2:**

Mae llawer o ffyrdd y gallwn leihau faint o wastraff rydym i gyd yn ei gynhyrchu. Mae'n fwy na dim ond ailgylchu, mae llawer o ffyrdd eraill fel:

- Meddwl am y deunydd pacio rydym yn ei brynu pan fyddwn yn siopa.
- Dim ond prynu'r bwyd sydd ei angen arnom mewn gwirionedd.
- Trwsio eitemau neu eu cynnal a'u cadw, yn hytrach na dim ond eu taflu i ffwrdd.
- Pan na fyddwn eisiau rhywbeth mwyach, gallwn ei drosglwyddo i rywun arall, neu ei werthu.

A fyddai gennych ddi-ddordeb mewn gwybod mwy am y ffyrdd y gallwch leihau eich gwastraff? Sut y gallwn roi gwybod i chi ac eraill am y camau gweithredu y gellir eu cymryd? A allwch awgrymu unrhyw ffyrdd y gallwn gyfathrebu ag eraill i'w gwneud yn fwy ymwbyddol?

Roedd mwyafrif yr ymatebion yn ffafriol a/neu gwnaethant argymhellion ar gyfer cyflwyno cyfathrebiadau ac amlinellwyd y camau gweithredu y maent eisoes wedi eu rhoi ar waith i leihau gwastraff bwyd. Cytunwyd yn gyffredinol y dylid rhoi cymysgedd o ymagweddau cyfathrebu yn eu lle.

Y prif faterion a godwyd oedd:

- Tynnodd sawl ymateb sylw at y bwlch sgiliau o ran atgyweirio eitemau trydanol. Nodwyd y gallai llenwi'r bwlch sgiliau hwn olygu manteision cymdeithasol ac economaidd.
- Dylunio nwyddau er mwyn gallu eu hatgyweirio i ymestyn oes nwyddau. Ac y dylid cael gwell gwybodaeth am wydnwch a hyd oes cynnyrch.
- Cytunodd sawl ymateb y dylem barhau ag ymgyrchoedd defnyddwyr (e.e. Yn ffres yn hirach) ar ddeunydd pacio angenrheidiol sy'n lleihau gwastraff y nwyddau a brynir.
- Gofynnwyd am ganllawiau gwell i fonitro canlyniadau lleihau gwastraff a gwell modelu o ran segmentu Acorn.
- Roedd angen gwell addysg i ddefnyddwyr wahaniaethu rhwng aildefnyddio ac ailgylchu.
- Roedd pryder bod Llywodraeth Cymru yn targedu deunyddiau sy'n darparu tunelledau dibwys a/neu natur beryglus gyfyngedig.
- Roedd pryder y byddai hyrwyddo lleihau ac aildefnyddio yn effeithio ar allu awdurdodau lleol i gyflawni targedau ailgylchu.

Ymhlith yr argymhellion roedd:

- Dylai gwybodaeth well fod ar gael am yr hyn y gall y cyhoedd ei wneud gyda'u cynnyrch pan na fydd eu heisiau arnynt mwyach. Dylai awdurdodau lleol, Cynllun Craff am Wastraff a Llywodraeth Cymru wella gwybodaeth (e.e. gwefannau) ar y seilwaith ailddefnyddio ac yn gyffredinol weithio'n agosach gyda darparwyr ailddefnyddio. Defnyddio rhwydweithiau cyfathrebu awdurdodau lleol yn well i gefnogi/hyrwyddo ailddefnyddio am eu bod yn cael cyswllt uniongyrchol â'r boblogaeth gyffredinol.
- Dweud wrth bobl beth sy'n digwydd i'w cynnyrch pan fyddant yn cael eu rhoi i ffwrdd.
- Targedu gwybodaeth am atal ac ailddefnyddio gwastraff ar y man prynu ar gyfer nwyddau newydd. A hefyd targedu pobl yn y gwaith, nid pan fyddant gartref yn unig
- Datblygu systemau ernes ar gyfer caniau a photeli.
- Y model rhaeadru hyfforddiant sy'n manteisio i'r eithaf ar lwybrau cyfathrebu dibynadwy e.e. ffrindiau, teulu, grwpiau cymdeithasol. Mae hwn yn fodel wedi'i brofi ar gyfer negeseuon gwastraff bwyd, ac argymhellodd ymateb arall ystyried eu hymgyrch ymddygiad cyhoeddus.
- Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu gwell gwybodaeth am waredu deunyddiau gwastraff i lawr y draen/sinc ac effeithiau amgylcheddol yr ymddygiad hwn.

Bydd ymgyrch newid ymddygiad defnyddwyr i atal gwastraff, gan dargedu dewis prynu (patrymau defnydd) a defnydd yn y cartref (gofal, trwsio ac ailddefnyddio) yn cael ei datblygu. Caiff hyn ei reoli drwy'r grŵp Cyfathrebu Gwastraff a'r Grŵp Llywio Atal Gwastraff. Bydd yr ymgyrch hon yn ehangu ar roi negeseuon i ddefnyddwyr ac yn ystyried argymhellion i'r ymgynghoriad hwn ar gyfer mathau gwahanol o ymagweddau cyfathrebu. Fel rhan o'r ymgyrch gyffredin hon, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys pwyllgorau, i wella'r wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd, annog rhannu sgiliau trwsio, cyfleu negeseuon ar yr hyn sy'n digwydd i gynnyrch a roddir i elusennau ac annog preswylwyr i basio nwyddau nad oes eu hangen arnynt mwyach ymlaen.

Mae'r ddogfen ymgynghori'n esbonio pam mae'r deunyddiau cartref hyn, sydd ag effaith amgylcheddol uchel o ran gwastraff cartref, yn cael eu targedu gan Lywodraeth Cymru. Mae targedu'r deunyddiau hyn yn golygu ein bod yn fwy tebygol o gyflawni byw un blaned.

**Cwestiwn Ymgynghori HW3:**

Mae deunydd pacio'n bwysig i ddiogelu nwyddau a sicrhau eu bod yn cael eu danfon mewn cyflwr da, ond weithiau mae defnyddwyr yn teimlo bod nwyddau â gormod o ddeunydd pacio amdanynt; ac fel arfer bydd deunydd pacio ar ffurf cymysgedd o ddeunyddiau megis plastig, cardbord ac alwminiwm, a all fod yn anodd ei wahanu a'i waredu'n briodol.

A oes gennych unrhyw syniadau am sut y gallwn fynd i'r afael â hyn? Beth fyddai'n eich helpu i wneud mwy i leihau'r math hwn o wastraff?

Gwnaeth mwyafrif yr ymatebion amlinellu camau y mae partïon eisoes wedi'u rhoi ar waith i leihau deunydd pacio. Megis gostyngiadau a wnaed o dan reoliadau presennol ac Ymrwymiad Courtauld.

Y prif faterion a godwyd oedd:

- Trafododd ychydig o'r ymatebion yr angen am gynnal asesiad cylch bywyd. Dylai'r asesiad cylch bywyd ystyried effaith diwedd oes a chludo deunyddiau ysgafnach (sy'n llai addas i'w hailgylchu) i alluogi cymhariaeth rhwng deunyddiau gwahanol.
- Mynegodd sawl ymateb bryder bod pwysau ysgafn deunydd pacio wedi arwain at ddeunydd pacio sy'n anodd ei ailgylchu neu nad oes modd ei ailgylchu e.e. rhai deunyddiau cyfansawdd. Mae angen gwneud gwaith i ddatblygu cyfleoedd i ddylunio deunydd pacio y gellir ei hailgylchu, sy'n effeithlon o ran adnoddau.
- Nododd sawl ymateb fod deunydd pacio (gan gynnwys manwerthwyr ar-lein) y tu allan i reolaeth awdurdodau lleol a'r cyhoedd.
- Roedd pryder y gallai lleihau deunydd pacio arwain at wastraffu cynnyrch. Symud gwastraff i fyny/i lawr y gadwyn gyflenwi. Mae hyn yn cynnwys anwybyddu manteision defnyddio deunydd cyfansawdd a all fod y deunydd pacio mwyaf priodol i ddiogelu cynnyrch a/neu gynyddu hyd oes cynnyrch.
- Roedd un ymateb yn gryf yn erbyn rhagor o drethi, taliadau, ardollau ar gyfer deunydd pacio neu fesurau statudol newydd. Argymhellwyd y byddai rheoleiddio rheoliadau presennol yn well yn fwy priodol. Roedd sawl ymateb arall yn ategu'r argymhelliad hwn.

Ymhlith yr argymhellion roedd:

- Gwell dealltwriaeth ymhlith y cyhoedd o ofynion y rheoliadau deunydd pacio, cynyddu cyhoeddusrwydd am yr hyn sydd wedi'i wneud eisoes a gwell dealltwriaeth ymhlith y cyhoedd o ddeunydd parcio hanfodol sy'n ymestyn oes cynnyrch.
- Cysondeb o ran casglu gwastraff/ailgylchu ledled Cymru.
- Gwella ailgylchu dolen gaeedig yng Nghymru, yn benodol ar gyfer eitemau plastig a haen blastig.
- Cael gwared ar bolystyren yn llwyr a defnyddio dewisiadau amgen fel y defnyddir gan rai manwerthwyr ar-lein.



Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod cynnydd a gwelliant o ran ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ddeunydd pacio hanfodol e.e. haenau plastig, sy'n ymestyn oes cynnyrch gartref ac yn atal gwastraff ar ran wahanol o'r gadwyn gyflenwi. Cyflawnir hyn drwy'r ymgyrch newid ymddygiad defnyddwyr.

Mae Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â gwasanaethau gwastraff/ailgylchu a ddarperir gan awdurdodau lleol drwy'r Rhaglen Newid Gydweithredol. Mae'r rhaglen hon yn cynnig cyfle i bob awdurdod lleol yng Nghymru gael budd cymorth ychwanegol sylweddol i helpu awdurdodau i ddatblygu a chyflawni cynllun busnes manwl yn nodi sut y byddant yn cyflawni canlyniadau Strategaeth Wastraff Cymru, Tuag at Ddyfodol Diwastraff.

## **Gwastraff Diwydiannol a Masnachol**

### **Cwestiwn Ymgynghori IC1:**

Dyma'r targedau atal gwastraff arfaethedig ar gyfer y ffrydiau gwastraff diwydiannol a masnachol:

Gostyngiad cyffredinol o 1.4% bob blwyddyn i 2050 yn seiliedig ar linell sylfaen 2006/7 ar gyfer gwastraff diwydiannol, gyda thargedau penodol ar gyfer y sectorau blaenoriaeth unigol

*Gweithgynhyrchu metel sylfaenol a chynnyrch metel.*

*Gweithgynhyrchu papur a chynnyrch papur.*

*Gweithgynhyrchu cemegau, cynnyrch cemegol, cynhyrchion fferyllol.*

*Gweithgynhyrchu bwydydd.*

Gostyngiad o 1.2% bob blwyddyn i 2050 yn seiliedig ar linell sylfaen 2006/7 ar gyfer gwastraff masnachol.

Caiff cynllun cyflawni ei ddatblygu i gyflawni yn erbyn y targedau hyn.

A ydych yn cytuno â'r targedau a gynigir? Rhowch eich rhesymau.  
Pa dargedau y dylid eu cynnig ar gyfer y sectorau diwydiant pwysicaf?  
Rhowch eich rhesymau.

Roedd yr ymatebwyr yn cefnogi'r egwyddor y dylem wneud ymdrech i leihau ymhellach y gwastraff a gynhyrchir gan fusnesau. Cafwyd ymateb cymysg o ran pennu targedau, yn enwedig pe baent yn statudol ac wedi'u pennu i sectorau blaenoriaeth penodol. Cafwyd sylwadau y byddai'r targedau lefel uchel a gynigiwyd yn heriol ond yn gyraeddadwy.

Y prif faterion a godwyd oedd:

- Mae'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol eisoes yn cynnwys darpariaeth ar gyfer lleihau gwastraff yn yr amodau trwyddedu.
- Roedd sectorau diwydiant eisoes wedi gwneud cryn ymdrech i leihau gwastraff, ac roeddent yn parhau i wneud hynny'n wirfoddol.
- Mae ysgogwyr economaidd yn eu lle i ysgogi effeithlonrwydd adnoddau mewn llawer o fusnesau.
- Byddai angen eglurder o ran cwmpas diffiniad "gwastraff" yn y targed.
- Gall targedau cymharol fod yn fwy priodol, i ddarparu ar gyfer twf economaidd.
- Dylai fod eithriad ar gyfer ffrydiau gwastraff mawr achlysurol. Enghraifft o hyn fyddai gwastraff a gynhyrchir wrth ddadgomisiynu neu ailosod gwaith diwydiannol.
- Roedd targedau lefel uchel yn briodol, ond mae arnom angen mwy o wybodaeth am sectorau diwydiant unigol cyn pennu targedau.

Ymhlith yr argymhellion roedd:

- Dylai cytundebau a mentrau gwirfoddol gael eu datblygu i ddechrau.
- Ymgysylltu â sectorau diwydiant i bennu llinell sylfaen o weithgarwch ar atal gwastraff.
- Gallai ymgysylltu â'r gadwyn gyflenwi fod yn ddull ar gyfer sicrhau'r cynnyrch mwyaf mewn gweithrediadau diwydiannol.
- Gallai egwyddorion megis y swyddfa ddi-bapur, cynwysyddion deunydd pacio cludo y gellir eu haildefnyddio ac aildefnyddio dodrefn a chyfarpar swyddfa gael eu mabwysiadu gan fusnesau mewn swyddfeydd.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cadw'r targedau atal gwastraff lefel uchel (1.4% y flwyddyn ar gyfer gwastraff diwydiannol a 1.2% y flwyddyn ar gyfer gwastraff masnachol) fel targedau dangosol, anstatudol. Mae'r targed yn ddefnyddiol wrth bennu cyfeiriad a chyflymder y newid sy'n ofynnol, hybu arloesedd, canolbwyntio gweithgarwch ein prosiectau cyflawni a monitro a ydym yn cyflawni ein hamcan o ddatgysylltu gwastraff oddi wrth weithgarwch economaidd a symud tuag at fyw un blaned.

Yn hytrach na chyflwyno targedau ar sectorau diwydiant unigol, datblygu targedau ar gyfer pob un o'r prosiectau gweithredu fel y bo'n briodol.

Fel y cydnabyddir yn y ddogfen ymgynghori, mae angen i Lywodraeth Cymru gynnal rhagor o ymchwil ac ymgysylltu â busnesau yn y sectorau diwydiant a ganiateir i ddeall i ba raddau y defnyddiwyd prosesau i'r eithaf yn barod, a graddfa'r cyfleoedd pellach i sicrhau gostyngiad. Datblygir y gwaith hwn fel rhan o gynllun cyflawni'r Rhaglen Atal Gwastraff.

**Cwestiwn Ymgynghori IC2:**

Rydym wedi disgrifio'r sectorau busnes pwysicaf a meysydd ar gyfer gweithredu.

- (a) A ydych yn cytuno â'r blaenoriaethau hyn? Rhowch eich rhesymau.  
(B) A oes unrhyw beth arall y dylem ei ystyried yn flaenoriaeth? Pam mae'n bwysig?  
(c) A ydych yn cytuno â'n hymagwedd arfaethedig o weithredu gwirfoddol i ddechrau, gyda mesurau gorfodol yn cael eu hadolygu yn y tymor hwy? Rhowch eich rhesymau.

Ar y cyfan roedd ymatebwyr yn cytuno â'r blaenoriaethau a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori, er bod rhai amheuon.

Roedd un o'r materion a godwyd yn ymwneud â data ar wastraff o sectorau diwydiant - mae'r data y mae'r blaenoriaethau wedi'u pennu arnynt yn cyfeirio at wastraff a gynhyrchwyd yn 2007. Cafwyd awgrymiadau y dylid ystyried trefniadau gorfodol i roi gwybod am wastraff er mwyn monitro cynnydd. Mae ymatebion i gwestiynau eraill wedi codi pryderon ynghylch cyflwyno beichiau adrodd ychwanegol ar fusnesau. Nododd nifer o ymatebwyr y gallai'r ddogfen ymgynghori fod wedi bod yn gliriach o ran esbonio beth oedd y sectorau blaenoriaeth, a pham.

Roedd cefnogaeth gref i'r sector cyhoeddus fod yn destun gweithredu, fel esiampl a thrwy ei ddylanwad dros y sector preifat drwy gaffael nwyddau a gwasanaethau. Cafwyd nodyn o rybudd y dylai meini prawf caffael gael eu llunio i beidio peri anfantais i gyflenwyr lleol, llai.

Roedd yr argymhellion ar gyfer blaenoriaethau ychwanegol fel a ganlyn:

- Gwastraff o ddiwydiannau cynhyrchu.
- Y sector metelau.
- Cyfanwerthu/manwerthu/atgyweirio cerbydau modur.
- Addysg.
- Y sector proffesiynol/gwyddonol a thechnegol.

Roedd cefnogaeth ysgubol i gamau gweithredu gwirfoddol i ddechrau. Mae'r ymatebwyr yn teimlo y dylai cyrhaeddiad ac effaith y mentrau hyn gael eu gwerthuso cyn ystyried cyflwyno mesurau gorfodol. Mynegwyd pryder am y broses o gyflwyno deddfwriaeth, yn enwedig y diffyg craffu annibynnol ar asesiadau effaith rheoliadol. Yn benodol, nodwyd bod taliadau a threthi'n arbennig o anaddas ar hyn o bryd.

Bydd Llywodraeth Cymru yn egluro'r sectorau a'r meysydd blaenoriaeth yn y ddogfen derfynol fel a ganlyn:

- Y Sector Cyhoeddus
- Manwerthwyr Mawr
- Y gadwyn cyflenwi bwyd
- Busnesau bach a chanolig
- Diwydiannau a ganiateir.

Nodir hyrwyddo eco-arloesedd fel mater trawsbynciol i gyflenwyr nwyddau a gwasanaethau yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod data ar wastraff sy'n deillio o weithgarwch busnes yn deillio o 2007, ac yn credu bod y blaenoriaethau a nodwyd yn ddilys o ran eu meintiau cymharol a'u heffeithiau amgylcheddol.

Rydym wedi cydnabod yr angen i ddeall rhai diwydiannau yn well (e.e. diwydiannau cynhyrchu gan gynnwys y sector metelau) i bennu'r potensial i leihau cyn penderfynu a oes angen camau gweithredu pellach.

Mae atgyweirio cerbydau modur yn cynhyrchu meintiau bach o wastraff ac nid ydym yn cynnig blaenoriaethu hyn ar hyn o bryd. Mae'r busnesau yn y sector hwn yn fusnesau bach a chanolig a byddant yn cael eu hystyried wrth ddatblygu'r prosiect gweithredu i fynd i'r afael ag effeithlonrwydd adnoddau busnes mewn busnesau bach a chanolig.

Bydd addysg yn cael ei chynnwys yn y rhaglen drwy ein prosiect sector cyhoeddus. Bydd gwasanaethau proffesiynol yn gallu manteisio ar ein cymorth i BBaCh, a gall eco--arloesedd ymestyn i mewn i'r sectorau gwyddonol a thechnegol.

Bwriad Llywodraeth Cymru yw monitro effeithiolrwydd ac effaith mentrau gwirfoddol dros y 5-6 blynedd nesaf. Nid yw'n fwriad gennym gyflwyno mesurau gorfodol ar gyfer atal gwastraff yn ystod yr amserlen hon.

### **Cwestiwn Ymgynghori IC3:**

Cynigir y bydd Llywodraeth Cymru a manwerthwyr yn adeiladu ar lwyddiant codi tâl am fagiâu siopa a gweithredu ledled y DU drwy Ymrwymiad Courtauld a mentrau eraill, gan arwain at fanwerthwyr yn datblygu camau ar y canlynol:

- Gwella effaith amgylcheddol eu portffolio cynnyrch drwy ddylanwadu ar dyfwyr, proseswyr, gwneuthurwyr a dosbarthwyr yng Nghymru ac yn rhyngwladol.
- Lleihau'r gwastraff a gynhyrchir drwy eu gweithgarwch eu hunain.
- Cefnogi mentrau cenedlaethol a lleol megis cynlluniau ailddosbarthu bwyd.
- Darparu gwybodaeth glir i ddefnyddwyr am berfformiad amgylcheddol eu cynnyrch.
- Darparu gwybodaeth a chanllawiau ar gamau ymarferol y gall defnyddwyr eu cymryd i leihau effaith eu cynnyrch wrth eu defnyddio ac ar ddiwedd eu hoes.

Pa gamau a mentrau pellach y gellir eu cymryd i wella ein rhaglen waith bresennol, ac i ategu'r camau uchod?

Yn gyffredinol roedd cefnogaeth i'r cynnig presennol o ran gweithio gydag manwerthwyr mawr a rhoddodd yr ymatebwyr enghreifftiau pellach o gynnwys y diwydiant yn y gweithgarwch hwn. Er enghraifft, Ymrwymiad Courtauld, y Fforwm Cynaliadwyedd Cynnyrch a'r Fforwm Nwyddau Traul ynghyd â rhoi bwyd dros ben.

Y prif faterion a godwyd a'r argymhellion oedd:

- Gwella effaith y portffolio cynnyrch - cynnwys y gadwyn gyflenwi gyfan Argymhellodd un o sefydliadau darparu Llywodraeth Cymru y dylai'r sector rheoli gwastraff ymgysylltu'n uniongyrchol â gwneuthurwyr, dylunwyr a pheirianwyr i annog dealltwriaeth ehangach o faterion diwedd oes ac ecoddylunio er mwyn adfer.
- Lleihau gwastraff – yn arbennig deunydd pacio ac aildefnyddio Mae consensws cyffredinol ymhlith y sector manwerthu a gweithgynhyrchu bwyd bod gan y sectorau hyn rôl bwysig i'w chwarae o ran lleihau gwastraff ond hefyd nad yw newidiadau pellach i ddeunydd pacio yn angenrheidiol. Fodd bynnag, roedd hyn yn groes i'r sector rheoli gwastraff, a chododd un o'i gyrff cynrychiadol bryderon am elfennau anodd eu hailgylchu ac na ellir eu hailgylchu ffrydiau gwastraff deunydd pacio presennol ac roedd y gwrthdaro rhwng pwysau ysgafn, marchnata a bywyd silff weithiau'n rhwystro atal gwastraff ac ailgylchu, yn enwedig y defnydd cynyddol o gyfansoddion.

- **Ailddefnyddio**  
Atebodd sawl un o'r ymatebwyr gyda barn y dylai'r arfer o ailddefnyddio deunyddiau drwy fanwerthwyr gael ei safoni a'i gynyddu gyda gwybodaeth a chyfeirio priodol i gwsmeriaid. Awgrymwyd cymorth busnes a ariennir ar gyfer datblygu rhwydweithiau ailddefnyddio hefyd.
- **Gwybodaeth a Chanllawiau i Ddefnyddwyr**  
Pwysleisiwyd pwysigrwydd sicrhau bod gwybodaeth i ddefnyddwyr yn gywir hefyd yn yr ymatebion hyn. Mae un o gyrff masnach y sector gweithgynhyrchu bwyd o'r farn y dylai gweithredu gwirfoddol gan randdeiliaid yn y gadwyn gyflenwi nodi manau o bwys ar draws cylch bywyd cyfan y cynnyrch a mynd i'r afael â hwy. Mae'r ymatebydd yn nodi bod hyn yn fwy effeithiol na model sy'n cael ei lywio gan y defnyddiwr yn seiliedig ar wybodaeth am ôl-troed cynnyrch unigol; mae mentrau sy'n wynebu'r defnyddiwr yn aml ar ffurf negeseuon rhy syml ar y pecyn. Mae'r corff hwn o'r farn na fyddai'r negeseuon hyn o fudd i gwsmeriaid na'r amgylchedd ac y byddai hefyd yn ymagwedd ddud i'w chymryd. Mae ymchwil arall gan gorff a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn awgrymu bod deall yr hyn sydd o bwys i ddefnyddwyr yn allweddol e.e. ar gyfer effeithlonrwydd dŵr, mae cost cael cawod yn fwy pwerus mewn negeseuon na swm y dŵr a ddefnyddir y funud wrth gael cawod. Nid yw ymddygiad wedi'i gysylltu'n awtomatig â gwerthoedd ac agweddau felly mae negeseuon a chyfathrebu sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac wedi'u profi yn hanfodol.

Nododd cymdeithas fasnach gweithgynhyrchu bwyd bod gan ymgyrchoedd, megis yr ymgyrch Yn Ffres yn Hirach, rôl bwysig.

- **Casglu data**  
Codwyd hefyd yr angen am gasglu data cywir a chynnwys rhanddeiliaid allweddol. Yn arbennig, cafwyd argymhelliad i gyfnewid gwybodaeth am bennu targedau penodol i sector.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i annog y sector manwerthu mawr yng Nghymru i ddatblygu gweithgarwch pellach i atal gwastraff o ran gwastraff sy'n codi mewn siopau, drwy eu cadwyn gyflenwi a hefyd gyda defnyddwyr yng Nghymru. Nodir y rhain yn y Rhaglen Atal Gwastraff fel un o'r sectorau blaenoriaeth ar gyfer atal rhagor o wastraff er mwyn cyflawni ein targedau.

Bydd Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo egwyddorion ymagweddau ecoddylunio a chylch bywyd ac yn annog manwerthwyr i ddiweddarau'r egwyddorion hyn ymhellach o ran y nwyddau a'r gwasanaethau y maent yn eu cynnig, drwy gymorth rhaglenni'r DU a phrosiectau penodol i Gymru. Dylai'r camau gweithredu hefyd annog cyswllt rhanddeiliaid allweddol drwy gydol y gadwyn gyflenwi gyfan o ddylunio hyd at weithgynhyrchu, manwerthu a diwedd oes.

Mae monitro a mesur cynnydd yn weithgaredd parhaus i'r holl raglenni gwastraff ac adnoddau sy'n gysylltiedig â Tuag at Ddyfodol Diwastraff.

Mae cynllun peilot marchnata cymunedol yn cael ei ddatblygu gan Lywodraeth Cymru a WRAP ar hyn o bryd i archwilio a all yr ymagwedd hon gynyddu ymddygiad effeithlon o ran adnoddau cwsmeriaid mewn siopau.

Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu strategaeth ailddefnyddio.

#### **Cwestiwn Ymgynghori IC4:**

Sut y gall Llywodraeth Cymru annog busnesau i ymwneud ag eco-arloesedd?

Y prif faterion a godwyd oedd:

- Cyfeiriodd Canolfan Eco-ddylunio Cymru at adroddiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru a oedd yn cynnwys nodi a graddio'r cynnyrch a gynhyrchir yng Nghymru o ran faint o adnoddau y maent yn debygol o alw amdanynt, ac ymyriadau posibl i wella'r nifer sy'n manteisio ar eco-ddylunio yng Nghymru.
- Y defnydd o gymhellion ariannol, cymorth parhaus i gyrff cynghori, meithrin cysylltiadau rhwng busnes ac academia a mesurau eraill megis cynlluniau ernes, gofynion 'cyfrifoldeb estynedig y cynhyrchydd' a hyrwyddo ymagweddau asesiad cylch bywyd.
- Rhoddodd llawer o ymatebwyr enghreifftiau o fentrau presennol. Rhoddodd un sefydliad a ariennir gan Lywodraeth Cymru ganfyddiadau a phethau a ddysgwyd o brosiect yng Nghymru.



- Cydnabuwyd hefyd nad yw eco-arloesedd/dylunio yn rhywbeth y gall Aelod-wladwriaethau unigol ei gyflawni ar eu pen eu hunain, a phwysigrwydd gweithredu ar lefel Ewropeaidd. Ceir nifer o strategaethau a chyfathrebu sy'n berthnasol i eco-arloesedd yn Ewrop a chafwyd galwad i bolisi cynnyrch Ewrop hyrwyddo effeithlonrwydd adnoddau.

Ymhlith yr argymhellion roedd:

- Cyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth  
Er enghraifft, fforymau lle mae arloeswyr yn siarad am eu profiad uniongyrchol, a chyfathrebu'r arbedion y gall busnes eu gwneud drwy fabwysiadu eco-ddylunio/arloesedd.
- Cymorth i brosiectau arddangos  
Nodwyd prosiectau arddangos fel mesur pwysig. Gall diwydiant fod yn ofalus o ran mabwysiadu technolegau newydd sydd wedi'u treialu neu eu profi mewn labordai yn unig. Gall prosiectau arddangos, a lledaenu'r canfyddiadau ar draws diwydiant, oresgyn yr ansicrwydd hwn.
- Hybu'r galw  
Cafwyd galwad i hybu'r galw am gynnyrch newydd drwy amrywiaeth o fesurau:
  - Ystyriwyd bod polisi caffael llywodraeth cynaliadwy ar gyfer llywodraeth ganolog a lleol sy'n annog cynnyrch eco-arloesol yn fesur pwysig.
  - Defnyddio'r label eco er mwyn i ddefnyddwyr allu gwneud penderfyniadau hyddysg, a hybu'r galw.
  - Annog datblygu a chynhyrchu cynnyrch eco-arloesol yn lleol drwy leihad strwythuredig mewn TAW a threth gorfforaeth.-
  - Gwarantau gorfodol

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig datblygu menter i wella eco-arloesedd mewn busnesau yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys;

- Targedu sectorau a busnesau lle ceir mwy o botensial am enillion effeithlonrwydd adnoddau drwy eco-arloesedd
- Ymyriadau fesul cam yn ôl lle mae busnesau o ran eu 'taith arloesedd'.

Gallai'r cyflawni fod naill ai drwy:

- Wella cymhwyster o fewn yr hyn a gynigir gan Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ar hyn o bryd, megis talebau arloesedd, Rhwydweithiau Trosglwyddo Gwybodaeth a chyllid Datblygu Ymchwil ac Arloesedd, a/neu;
- Datblygu rhaglenni newydd

Bydd y fenter yn blaenoriaethu busnesau ym meysydd y tair Her Fawr, a nodwyd yn *Gwyddoniaeth i Gymru*. Gwyddorau bywyd ac iechyd, Carbon isel, ynni a'r amgylchedd, a pheirianeg a deunyddiau uwch, ond ni fydd yn eithrio prosiectau eco-arloesedd gwych mewn unrhyw sector.

Mae'r 3 sector hyn hefyd wedi'u targedu yn *Arloesi Cymru* fel meysydd lle y caiff ymyriadau mawr eu canolbwyntio. Mae *Arloesi Cymru* yn benodol yn cyfeirio at eco-arloesedd yn ffurfio rhan o'r diffiniad ehangach o arloesedd yr hoffai Llywodraeth Cymru ei fabwysiadu wrth symud ymlaen.

Oherwydd bod y fenter yn blaenoriaethu meysydd Her Fawr Cymru, bydd yn cyd-fynd ag ymagwedd Arbenigo Craff y Comisiwn Ewropeaidd y mae Llywodraeth Cymru wedi'i mabwysiadu bellach, ac sy'n bwysig wrth fanteisio ar Gronfeydd Strwythurol yr UE.

Yn olaf, mae meysydd targed y fenter yn gorgyffwrdd yn sylweddol â heriau cymdeithasol yr UE a amlinellir yn *Horizon 2020*, y Fframwaith Cyffredin newydd ar gyfer Ymchwil ac Arloesedd 2014-2020.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda Llywodraethau'r DU a'r UE i ddylanwadu ar y strategaethau a'r cyfathrebu sy'n berthnasol i eco-arloesedd.

Mae Llywodraeth Cymru'n datblygu 'Cynllun Sector Cyhoeddus' a fydd yn datblygu camau gweithredu ar gaffael cyhoeddus gwyrdd.

Byddwn yn asesu'r potensial am hyrwyddo cynnyrch label eco i hybu'r galw drwy ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd.

#### **Cwestiwn Ymgynghori IC5:**

Ceir adolygiad o'r dystiolaeth ar draws y DU ac yn rhyngwladol ar y rhwystrau atal gwastraff a mesurau sy'n benodol i'ch sector yn:

<http://randd.defra.gov.uk/Default.aspx?Menu=Menu&Module=More&Location=North&Completed=0&ProjectID=17499>

A ydych yn cytuno â'r dystiolaeth hon ar gyfer eich sector yng Nghymru? Os nad ydych, beth yw'r rheswm am hynny?

Pa gymorth sydd ei angen ar eich busnes i ddod yn fwy effeithlon o ran adnoddau a pham?

Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn cytuno â'r dystiolaeth a ddarparwyd ar gyfer y sectorau, gan gynnwys rhwystrau i weithredu ac ysgogwyr ar gyfer newid.

Awgrymodd un o ymatebwyr y diwydiant fod manteision cost lleihau deunyddiau mewnbyn wedi arwain at effeithlonrwydd adnoddau ac atal

gwastraff – nid yw atal gwastraff o reidrwydd yn flaenoriaeth isel i fusnesau yn yr amodau economaidd presennol.

Ni chwmpasodd yr adolygiad yr holl sectorau diwydiant, fel y nodwyd gan rai o'r ymatebwyr.

Nodwyd y dulliau cymorth canlynol yn yr ymatebion:

- Cytundebau Gwirfoddol.
- Ymestyn y defnydd o ddeunydd pacio eilaidd a thrydyddol y gellir ei aildefnyddio, ei ddychwelyd a'i ailgylchu.
- Cymorth ariannol.
- Cymorth sefydliadol.
- Integreiddio cymorth ar gyfer effeithlonrwydd deunyddiau, ynni a dŵr.
- Cymorth gyda phennu Dangosyddion Perfformiad Allweddol a systemau mesur mewnol.
- Dileu rhwystrau rheoliadol.

Mae Llywodraeth Cymru'n fodlon bod canfyddiadau'r sectorau diwydiant a gwmpesir gan yr adolygiad tystiolaeth yn berthnasol yng Nghymru, a byddwn yn defnyddio'r canfyddiadau hyn wrth ddatblygu prosiectau gweithredu, ynghyd â'r canfyddiadau o ddigwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Rydym yn cydnabod bod rhai sectorau nad ydynt wedi'u cwmpasu, ac rydym yn ymrwymedig i ymgysylltu â diwydiant a ganiateir i sefydlu llinell sylfaen o gamau gweithredu presennol ar atal gwastraff, y potensial am leihad pellach ac unrhyw gamau ategol sy'n ofynnol.

Mae mentrau presennol Llywodraeth Cymru yn cwmpasu llawer o'r dulliau cymorth uchod i rai o sectorau'r diwydiant neu'r cyfan ohonynt, a byddwn yn ystyried yr argymhellion pan fyddwn yn datblygu mesurau newydd.

Mae integreiddio cymorth ar gyfer effeithlonrwydd deunyddiau, ynni a dŵr yn un o nifer o opsiynau sy'n cael eu hystyried ar gyfer rhaglen effeithlonrwydd adnoddau busnes i fusnesau bach a chanolig.

Mae rheoliadau yn hanfodol o ran diogelu iechyd dynol a'r amgylchedd. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn mabwysiadu ymagwedd seiliedig ar risg, gan dargedu gweithgarwch sydd â'r potensial mwyaf i achosi niwed. Mae ganddo ddulliau i adolygu gweithgarwch sy'n risg isel er mwyn lleihau neu ddileu beichiau rheoleiddiol lle y bo'n briodol. Nid oes angen trwyddedau ar nifer eang o weithgareddau, dim ond cofrestru fel gweithgarwch wedi'i eithrio, a gall eraill fodloni meini prawf diwedd oes gwastraff; mae canllawiau ar gael ar-lein, ond y Llysoedd fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol.

### **Cwestiwn Ymgynghori IC6:**

Mae Llywodraeth Cymru'n ystyried sut y gellir dylanwadu ar agweddau ac ymddygiad busnes er mwyn i fusnesau allu dod yn fwy effeithlon o ran adnoddau. Rydym yn defnyddio ymagwedd fframwaith cymwyseddau i wneud hyn.

A ydych yn cytuno bod fframwaith cymwyseddau'n ddefnyddiol i feincnodi perfformiad a bod yn sail i unrhyw ymyriadau? Os nad ydych, beth yw'r rheswm am hynny?

A ydych yn cytuno bod fframwaith cymwyseddau yn ymagwedd ddefnyddiol i fod yn sail i raglen cymorth busnes ar gyfer busnesau bach a chanolig yng Nghymru yn y dyfodol ac i dargedu hyn? Os nad ydynt, beth yw'r rheswm am hynny?

Roedd cytundeb y gallai ymagwedd fframwaith cymwyseddau gael ei defnyddio i feincnodi perfformiad a bod yn sail i ymyriadau.

Cafwyd nifer o argymhellion ac arsylwadau:

- Dylai cyfranogiad fod yn wirfoddol.
  - Na ddylai busnesau gael eu llethu gyda mesurau gorfodol.
  - Fodd bynnag, gellid bod problem o ran nifer y rhai a fyddai'n manteisio ar hyn.
- I annog cyfranogiad, dylai costau i'r busnes am gymryd rhan fod yn ystyriaeth allweddol.
- Roedd croeso i gyngor a chymorth i fusnesau.
- Angen ystyried y ffordd orau o annog busnesau i gymryd rhan.
- Gall tynnu sylw at fanteision ariannol gynyddu'r nifer sy'n cymryd rhan.
- Mae'r ymagwedd gymhwysedd yn arwain at newid ymddygiad hirdymor, ac mae'n fwy effeithiol nag archwiliadau untro.
- Dylid annog technegau rheoli darbodus.
- Dylid defnyddio'r fframwaith cymwyseddau ar y cyd â sail dystiolaeth glir, amcanion wedi'u diffinio'n glir, dangosyddion perfformiad allweddol a chyflawniadau cerrig milltir.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gynorthwyo busnesau yng Nghymru i sicrhau manteision ariannol ac amgylcheddol mwyaf posibl effeithlonrwydd adnoddau. I'r perwyl hwn, rydym yn ymchwilio i nifer o opsiynau, gan gynnwys y defnydd o ymagwedd gymhwysedd, ar gyfer datblygu rhaglen effeithlonrwydd adnoddau busnes mewn busnesau bach a chanolig.

Byddwn yn ymgynghori â chynrychiolwyr busnes i sicrhau cyn lleied o gostau a beichiau â phosibl a sicrhau'r manteision mwyaf posibl i fusnesau pan fyddwn yn cyflawni ein gwaith gyda busnesau bach a chanolig.

## ***Gwastraff Adeiladu a Dymchwel***

### **Cwestiwn Ymgynghori CD1:**

(a) A ydych yn cytuno â'r rhaglen amlinellol ar wastraff adeiladu a dymchwel? Rhowch eich rhesymau. (b) A ddylai unrhyw beth arall gael ei gynnwys yn y rhaglen? Esboniwch beth, a manteision hynny.

Ar y cyfan, roedd yr holl ymatebwyr yn cytuno â'r rhaglen a nodwyd ar gyfer gwastraff Adeiladu a Dymchwel. Fodd bynnag, roedd sawl un ohonynt yn teimlo bod y data a ddefnyddiwyd yn y sail dystiolaeth wedi dyddio cryn dipyn ac felly nad oedd o bosibl yn rhoi darlun cywir o'r hyn y dylai'r rhaglen ganolbwyntio arno. Bydd llawer o'r meysydd gwaith a nodwyd yn y rhaglen amlinellol yn cael eu hystyried yn ystod yr arolwg o sgil-gynhyrchion gwastraff a gynhelir yn 2013. Awgrymodd ychydig o ymatebwyr y dylai Llywodraeth Cymru ailasesu'r agwedd hon ar y rhaglen pan fydd y data hwn ar gael.

Ni wnaeth un o'r ymatebwyr awgrymu unrhyw ychwanegiadau i'r rhaglen, er y pwysleisiodd un y gallai cyflwyno Cynlluniau Rheoli Gwastraff ar Safleoedd yng Nghymru helpu i annog atal gwastraff yn y sector adeiladu yng Nghymru, ond y byddai'n anodd asesu'r effeithiau posibl nes bod manylion y rheoliadau'n cael eu llunio ar eu ffurf derfynol.

Caiff y rhaglen atal gwastraff ar gyfer y sector Adeiladu a Dymchwel ei hehangu a'i chyflawni drwy'r prosiect gweithredu ar gyfer Cynllun y Sector Adeiladu a Dymchwel a'r Rhaglen Atal Gwastraff, sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd. Caiff amserlen ar gyfer prosiect ei chynnwys yn nogfen y Rhaglen Atal Gwastraff.

**Cwestiwn Ymgynghori CD2:**

Ceir adolygiad o'r dystiolaeth ar draws y DU ac yn rhyngwladol ar y rhwystrau atal gwastraff a mesurau sy'n benodol i'ch sector yn:

<http://randd.defra.gov.uk/Default.aspx?Menu=Menu&Module=More&Location=North&Completed=0&ProjectID=17499>

A ydych yn cytuno â'r dystiolaeth hon ar gyfer y sector adeiladu yng Nghymru? Os nad ydych, beth yw'r rheswm am hynny?  
Pa gymorth sydd ei angen ar eich busnes i ddod yn fwy effeithlon o ran adnoddau a pham?

Cafwyd tri ymateb yn unig i'r cwestiwn hwn. Yn gyffredinol, roeddent yn cytuno â'r adolygiad o dystiolaeth er y nododd un ymatebydd bod y modd y'i defnyddir yn dibynnu ar wybodaeth dda am arferion presennol mewn perthynas â ffrydiau gwastraff Adeiladu a Dymchwel yng Nghymru. Ni chafwyd ymatebion i'r cwestiwn am y cymorth sydd ei angen i ddod yn fwy effeithlon o ran adnoddau.

Rhoddodd dau o'r ymatebwyr sylwadau penodol ar elfen aildefnyddio'r adolygiad tystiolaeth, gan gyfeirio'n benodol at effaith bosibl y gofyniad yn y Rheoliadau Cynhyrchion Adeiladu o ran nodi CE ar gyfer holl gynhyrchion adeiladu o 1 Gorffennaf 2013. Teimlwyd y gallai hyn olygu bod ailgylchu'n cael ei weld fel rhywbeth mwy ymarferol/cost-effeithiol nac aildefnyddio rhai deunyddiau (er enghraifft, cydrannau dur).

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod y data a ddefnyddiwyd i bennu llinell sylfaen ar gyfer y sector hwn yng Nghymru yn deillio'n ôl rai blynyddoedd erbyn hyn. Nid oes rhwymedigaeth statudol ar fusnesau i ddarparu data ar gynhyrchu gwastraff i'r Llywodraeth na'r rheoleiddiwr, felly defnyddir arolygon gwirfoddol achlysurol i gael yr wybodaeth hon.

Mae arolwg o fusnesau, gan gynnwys y rheini o'r sector adeiladu a dymchwel, yn cael ei gynnal yn ystod 2013 i gasglu data ar symiau a mathau o wastraff a gynhyrchir gan fusnesau yn 2012, a'r ffordd y rheolwyd hyn. Bydd y data hyn yn cael eu cyhoeddi yn 2014, a defnyddir y canlyniadau fel gwybodaeth ategol ar gyfer polisi a phrosiectau cyflawni yn y dyfodol. Rydym hefyd yn ymchwilio i ffyrdd eraill o gasglu data gwastraff yn y dyfodol.

## **Cwestiynau cyffredinol a thechnegol eraill**

**Cwestiwn Ymgynghori G1:** Cynhaliwyd Arfarniad o Gynaliadwyedd ar y rhaglen hon, ac mae wedi'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r ddogfen hon fel rhan o'r ymgynghoriad. A ydych yn cytuno â'i ganfyddiadau a'i gasgliadau. Rhowch eich rhesymau.

Roedd yr holl ymatebwyr yn cytuno â'r canfyddiadau a'r casgliadau yn yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Cafwyd y sylw bod yr arfarniad wedi'i gyffredinoli, ond cydnabuwyd bod hyn yn anochel wrth weithio ar lefel y rhaglen strategol hon.

Ymatebodd Cyfoeth Naturiol Cymru yn fanwl yn rhinwedd eu gallu fel ymgynghorai statudol yng nghyd-destun eu cyfrifoldebau o dan Reoliadau Aseidiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004, ac fel cynghorwyr i Lywodraeth Cymru ar dreftadaeth ac adnoddau naturiol Cymru a'i dyfroedd arfordirol. Cafwyd sylwadau a oedd yn feirniadol o rai o'r manylion yn adroddiad yr arfarniad o gynaliadwyedd, ond cytunwyd mewn egwyddor bod yr asesiad yn gywir, nad yw'r rhaglen yn cael unrhyw effeithiau andwyol o bwys a bod ganddi'r potensial am effeithiau cadarnhaol.

Caiff canfyddiadau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd eu hystyried wrth gwblhau'r Rhaglen Atal Gwastraff.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried argymhellion Cyfoeth Naturiol Cymru pan fydd yn cyhoeddi'r Datganiad Ôl-fabwysiadu ac Arfarniadau o Gynaliadwyedd ar gynlluniau a rhaglenni yn y dyfodol.

### **Cwestiwn Ymgynghori G2:**

- (a) A ydych yn cytuno ag ymagwedd Llywodraeth Cymru at dorri'r cysylltiad rhwng cynhyrchu gwastraff a thwf economaidd, gan gydnabod y cyfle i leihau costau i fusnesau a chostau yn y cartref wrth wneud hynny?
- (b) Os nad ydych, pa ddewisiadau eraill rydych yn eu cynnig? Rhowch eich rhesymau, a disgrifiwch sut y byddech yn cynnig mesur llwyddiant.

Roedd cytundeb cyffredinol ymhlith yr ymatebwyr bod yr ymagwedd a gynigwyd yn seiliedig ar egwyddorion cadarn.

Gwnaed yr arsylwadau a'r argymhellion canlynol:

- Ni all Llywodraeth Cymru gyflawni datgysylltu ar ei phen eu hun – mae angen cydweithredu yn y DU ac yn rhyngwladol.
- Mae angen i'r targedau fod yn gyraeddadwy ac arwain at y lleihad gofynnol yn y defnydd o adnoddau.
- Dylid ystyried gwastraff cloddio (h.y. priddoedd) ar wahân i wastraff Adeiladu a Dymchwel wrth ystyried y cyswllt rhwng cynhyrchu a thwf economaidd.
- Bydd angen newid diwylliannol mewn agweddau i gyflawni datgysylltu.
- Mae'r rhaglen hon yn gyfle gwirioneddol i newid sut y mae cymdeithas yn gwerthfawrogi'r defnydd o adnoddau naturiol.

- Rheoli adnoddau cynaliadwy yw defnyddio'r Egwyddor Agosrwydd ochr yn ochr â'r Hierarchiaeth Gwastraff.
- Mae datgysylltu'n golygu cael mwy o 'wasanaeth' gan lai o 'ddeunydd'.
- Efallai fod y gostyngiadau presennol mewn gwastraff diwydiannol oherwydd y newid yn y cymysgedd economaidd, nid effeithlonrwydd adnoddau, a gall y symiau gynyddu eto yn y dyfodol oni bai bod ymddygiad neu brosesau'n cael eu newid yn barhaol.
- Mae angen ystyried ymarferoldeb gweithredol a'r effaith ar fusnesau a sectorau.
- Bydd busnesau yn y sector masnachol yn fwy anodd eu cyrraedd - mae llawer o gwmnïau llai, felly bydd yr arbedion fesul cwmni yn llai.
- Gellid ailadrodd mentrau megis deunydd pacio cludo y gellir ei aildefnyddio ym maes manwerthu bwyd mewn sectorau eraill.
- Mae data ar gyfer monitro yn allweddol – dylid ystyried gwneud casglu data gwastraff o fusnesau yn ofyniad statudol.

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r ffaith bod ymatebwyr yn cytuno â'n hymagwedd, ac rydym yn cynnig y bydd targedau lleihau absoliwt yn cael eu defnyddio fel ein dull o fonitro datgysylltu. Rydym yn mynd i'r afael â'r mater o gynhyrchu pridd drwy eithrio gwastraff a ddefnyddir ar safleoedd (naill ai gyda pharatoi neu heb baratoi) o'r targed – mae hyn yn dileu mwyafrif helaeth y priddoedd o'r targed.

Cydnabyddwn fod angen newid sylweddol mewn ymddygiad er mwyn i Gymru gyrraedd lefelau cynaliadwy o ran defnyddio deunydd. Rydym yn hyderus y bydd y newidiadau hyn yn fanteisiol i'n dinasyddion a'n busnesau - yn ariannol, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol - a byddwn yn cyfathrebu'r manteision hyn drwy gydol tymor y rhaglen. I lawer o fusnesau, gall newidiadau cost isel neu ddim cost gael eu hymgorffori'n hawdd i arferion busnes a gallant arwain at fanteision sylweddol.

Byddwn yn ystyried sylwadau am ystyriaethau ymarferol a monitro. Bydd cyfres o fesurau perfformiad yn gysylltiedig â'r prosiectau gweithredu i sicrhau bod arbedion effeithlonrwydd ac atal gwastraff gwirioneddol yn cael eu cyflawni. Cydnabyddwn y gall fod yn fwy anodd cyrraedd busnesau llai, a byddwn yn gweithio ar draws Llywodraeth Cymru i ddod o hyd i atebion creadigol i sicrhau manteision i'r busnesau hynny.



### **Cwestiwn Ymgynghori G3:**

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech roi sylwadau ar unrhyw beth arall, neu godi unrhyw faterion rydych yn teimlo nad ydynt wedi mynd i'r afael â hwy'n llaw, defnyddiwch y gofod a ddarperir.

Roedd cefnogaeth gyffredinol ar gyfer y cynigion a oedd yn cael eu cyflwyno yn y ddogfen ymgynghori, ond hefyd rhai pryderon am opsiynau penodol a manylion gweithredu yng Nghymru. Rydym wedi grwpio'r sylwadau ar y themâu canlynol:

- Baich ar fusnes
- Rhwydwaith ailddefnyddio a thrwsio
- Deunydd pacio a gwastraff deunydd pacio
- Mesurau atal gwastraff i'w hystyried
- Pryderon a sylwadau eraill

#### Baich ariannol a rheoliadol ar fusnes

Codwyd y pryderon canlynol:

- Ni ddylai busnesau wynebu cosbau neu feichiau a allai olygu eu bod yn gorfod gadael Cymru.
- Byddai cynigion ar drethi busnes yn taro mentrau cymdeithasol sy'n cynnal gweithrediadau ailddefnyddio gyda siopau manwerthu cysylltiedig.
- Nid yw rheoleiddio amgylcheddol yn darparu ar gyfer gweithgarwch adfer tir i fwrdd o'r safle halogedig yn hawdd.

#### Rhwydwaith ailddefnyddio a thrwsio

Gwnaed y sylwadau canlynol:

- Mae galw am eitemau wedi'u hadnewyddu oherwydd ni all pobl fforddio nwyddau newydd.
- Croesewir seilwaith ailddefnyddio cenedlaethol – bydd yn arwain at newid yng nghanfyddiadau'r cyhoedd.
- Dylai'r rhwydwaith presennol o sefydliadau ailddefnyddio cymunedol gael ei ymgorffori yn y rhwydwaith ailddefnyddio a thrwsio.
- Nid yw'n foesebol nac yn gynaliadwy allforio gwerth ac effaith amgylcheddol nwyddau sydd wedi'u gwaredu.
- Dylid defnyddio system leol, sy'n dwyn yr Egwyddor Agosatrwydd a'r Hierarchiaeth Gwastraff at ei gilydd er budd cymunedau lleol.
- Mae Cynlluniau Cydymffurfio Cynhyrchwyr yn gweithio i ddargyfeirio deunydd i weithrediadau ailgylchu, ond maent yn aml yn anwybyddu sefydliadau ailddefnyddio.
- Mae diffyg sgil yn y gwasanaeth annibynnol/sectorau ailgylchu ar gyfer nwyddau gwyn, gan arwain at arferion anniogel a diffyg hyder cwsmeriaid.
- Awgrymwyd model EEESafe fel ateb posibl ar gyfer atgyweirio ac adnewyddu nwyddau gwyn.
- Credwyd bod safon PAS141 ar gyfer ailddefnyddio cynhyrchion electronig, a chanllawiau ar weithgarwch ailddefnyddio arall, yn cynyddu hyder defnyddwyr.

- Mae gwneuthurwyr TG dramor yn aml yn mynd â chyfrifiaduron a waredwyd er mwyn eu trwsio cyn eu gwerthu yn ôl.
- Mae'r cynnig hwn o bosibl yn cynnwys rhanddeiliaid o nifer o sectorau.
- Byddai ymagwedd partneriaeth rhwng awdurdodau lleol, gweithredwyr gwastraff masnachol a mentrau cymdeithasol yn fanteisiol.
- Dylid dwyn rhanddeiliaid ynghyd i drafod y posibiladau mewn cynllun wedi'i amserlennu.

#### Deunydd pacio a gwastraff deunydd pacio

- Gallai taliadau ar ddeunydd pacio arwain at leihad yn swm y deunydd pacio y tu hwnt i'r hyn sydd orau i ddiogelu'r cynnyrch drwy gydol y gadwyn gyflenwi.
- Mae deunydd pacio'n chwarae rhan bwysig i ddiogelu'r cynnyrch pan fydd yn cael ei gludo.
- Ceir gwrthwynebiad i drethi, ardollau neu daliadau ychwanegol ar gynhyrchwyr deunydd pacio.
- Byddai taliadau yn groes i economi marchnad rydd.

#### Mesurau atal gwastraff i'w hystyried

Gwnaed y sylwadau canlynol:

- Dylai deunydd pacio metel a gwydr fod yn flaenoriaethau. Dylid ystyried systemau ernes ar gyfer caniau metel a photeli diodydd.
- Dylid canolbwyntio ar hyrwyddo cewynnau go iawn.
- Mae'n siomedig nad yw Labeli Eco Haen 1 gan gynnwys Ecolabel yr UE wedi'u deall.
- Mae gan y Gymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol (ESA) gytundeb cyfrifoldeb gyda Defra sy'n cynnwys ymrwymiad i roi mwy o bwyslais ar atal gwastraff yn eu trafodion â chwsmeriaid sy'n cynhyrchu gwastraff; Byddai disgwyl i aelodau o'r Gymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol gymhwyso amcanion y cytundeb yng Nghymru.
- Mae ymagwedd Llywodraeth Cymru at systemau rheoli amgylcheddol yn siomedig; ceir tystiolaeth bod cwmnïau sy'n mabwysiadu system rheoli amgylcheddol yn cynhyrchu llai o wastraff na chystadleuwyr yn yr un sector nad ydynt yn mabwysiadu systemau rheoli amgylcheddol.
- Roedd yn siomedig nad yw Llywodraeth Cymru yn cynnig cyflwyno mesurau newydd, dim ond manteisio i'r eithaf ar effeithiolrwydd y rhai sydd eisoes wedi'u hamlinellu yn y Cynllun Sector Trefol.

#### Pryderon a sylwadau eraill

- Mae angen newidiadau mawr mewn prosesau cynhyrchu, patrymau defnydd, ac ymddygiad busnesau a defnyddwyr. Ni fydd y newidiadau hyn yn digwydd dros nos.
- Dylai'r rhaglen atal gwastraff nodi cynnyrch targed – awgrymwyd offer trydanol ac electronig, adeiladu, bwyd, dillad, tecstilau, dodrefn, plastigion a deunydd pacio.
- Mae angen dangos manteision economaidd yn ogystal ag amgylcheddol defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon.
- Mae angen symud o wastraff i reoli adnoddau, a dylai cyllido awdurdodau lleol adlewyrchu hyn.

- Mae manwerthwyr eisoes yn gwella eu heffeithlonrwydd adnoddau ac yn lleihau gwastraff. Maent hefyd yn helpu cartrefi i leihau gwastraff bwyd a deunydd pacio drwy gyfathrebiadau megis y Label Ailgylchu ar y Pecyn. Maent hefyd yn cynnwys cynnwys wedi'i ailgylchu.
- Mae angen seilwaith digonol i ymdrin ag aildefnyddio, paratoi ar gyfer aildefnyddio a gweithgarwch ailgylchu.
- Dylai'r canlynol annog rheoli gwastraff y gellir ei ailgylchu yn well: gwahanu yn y ffynhonnell â chyn lleied o lygredd â phosibl; lleihau'r ystod o bolymerau mewn potiau a hambyrddau plastig; canolbwyntio ar blant ysgol i wella agweddau at ailgylchu; seilwaith i ymdrin â deunyddiau wedi'u hailgylchu i osgoi allforio; canolfannau didoli lleol.
- Cynigiodd WRAP wneud mwy o waith ar wastraff bwyd, cytundebau gwirfoddol ac eco-arloesedd yng Nghymru.
- Ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru – mae dogfennau mawr niferus yn destun ymgynghori ar yr un pryd; mae angen cael crynodebau mwy effeithiol, defnyddio gweithdai ac ati i gael mewnbwn gan grŵp ehangach o randdeiliaid.
- Pa feini prawf a fyddai'n cael ei ddefnyddio i benderfynu a ddylid cyflwyno taliadau uniongyrchol i breswylwyr yn ôl swm y gwastraff maent yn ei gynhyrchu?
- Data monitro – os yw'n debygol y gofynnir i Cyfoeth Naturiol Cymru reoli arolygon pellach i gasglu data ar wastraff gan fusnesau, mae angen i Lywodraeth Cymru drefnu hyn gyda Cyfoeth Naturiol Cymru cyn gynted ag y bo modd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried y sylwadau hyn wrth lunio'r rhaglen. Rhoddir enghreifftiau isod.

#### Baich ariannol a rheoliadol

Mae gweithredu ar atal gwastraff yn arbed arian i fusnesau ac yn sicrhau eu bod yn gystadleuol yn y farchnad fyd-eang. Bwriad Llywodraeth Cymru yw monitro effeithiolrwydd ac effaith mentrau gwirfoddol dros y 5-6 blynedd nesaf. - Nid yw'n fwriad gennym gyflwyno mesurau gorfodol ar gyfer atal gwastraff yn ystod yr amserlen hon.

#### Rhwydwaith aildefnyddio a thrwsio

Argymhellodd yr ymatebwyr yn gryf ddull partneriaeth rhwng awdurdodau lleol, gweithredwyr gwastraff masnachol, elusennau a mentrau cymdeithasol i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd aildefnyddio. Mae Llywodraeth Cymru o blaid yr ymagwedd hon, a bydd yn cynnull grŵp llywio i fynd â'r gwaith hwn yn ei flaen; bydd yr holl sectorau yn cael eu cynrychioli. Bydd y safbwyntiau a fynegir gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn cael eu hystyried gan y grŵp hwn.

#### Deunydd pacio a gwastraff deunydd pacio

Mae Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi'r rhan y mae deunydd pacio yn ei chwarae o ran sicrhau bod nwyddau'n cael eu cludo'n ddiogel a chyda'r difrod lleiaf posibl, a'u cyflwyno mewn ffordd sy'n ddeniadol i'r cwsmer ac yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol am y cynnwys. Byddwn yn annog sicrhau'r deunydd pacio gorau posibl yn ein gwaith gyda gwneuthurwyr, cyflenwyr a manwerthwyr er mwyn cael y cydbwysedd cywir rhwng lleihau swm y gwastraff deunydd pacio a diogelu nwyddau.

## Mesurau atal gwastraff a awgrymwyd

### *System Ernes.*

Awgrymwyd system ernes ar gyfer caniau a photeli diodydd. Mae cynlluniau ernes/dychwelyd gorfodol (e.e. ar gyfer cynwysyddion diodydd neu ddiodydd meddal) yn ddull i lywodraeth sydd wedi'i ddefnyddio'n llwyddiannus mewn rhai o wledydd eraill yr UE. Mae Zero Waste Scotland ar hyn o bryd yn cynnal cynlluniau peilot ar gynlluniau peiriannau Gwrthwerthu ac Ernes a chyflwynir adroddiadau ar y rhain ar ddechrau 2014. Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro'r ymagweddau a gymerwyd gan Zero Waste Scotland.

### *Ymgyrch Cewynnau Go Iawn.*

Nid oedd dim neu fawr ddim gwahaniaeth o ran effaith amgylcheddol cewynnau golchadwy a chewynnau tafladwy; mae cewynnau golchadwy'n defnyddio ynni, dŵr a glanedyddion ac mae cewynnau tafladwy'n cyfrannu at wastraff cartref<sup>1</sup>. Rhwng 2005 a 2008, roedd cynhyrchwyr cewynnau tafladwy wedi sicrhau lleihad o 12% o ran effeithiau posibl cewynnau golchadwy ar newid yn yr hinsawdd.

Mae'r Cynllun Craff am Wastraff yn darparu ymgyrch llai manwl ar gewynnau go iawn, sy'n cynnig gwybodaeth yn unig. Er bod cewynnau'n cael effaith fawr, maent yn digwydd mewn tunelleddau cymharol fach, er enghraifft o gymharu â gwastraff bwyd. Gall hefyd fod yn anodd cychwyn newid ymddygiad<sup>2</sup>. Mae mwy o bwys yn cael ei rhoi ar hyn o bryd ar fathau o wastraff sydd â mwy o botensial am newid, ond caiff hyn ei adolygu o bryd i'w gilydd wrth i ymddygiad a chyfansoddiad gwastraff newid.

Mae Llywodraeth Cymru yn annog awdurdodau lleol i drefnu casgliadau ar wahân ar gyfer nwyddau hylendid amsugol (AHP) megis cewynnau tafladwy a phadiau anymataliaeth. Mae casglu'r gwastraff hwn ar wahân yn hwyluso'r broses o'i ailgylchu ac yn ei ddargyfeirio o safleoedd tirlenwi, gan gynorthwyo awdurdodau lleol i gyflawni targedau a lleihau costau. Gyda bwyd a nwyddau hylendid amsugol yn cael eu casglu ar wahân mae'r ddwy ffrwd sy'n peri'r pryder mwyaf i breswylwyr, fel ffynonellau arogleuon a rhai sy'n denu fermin, yn cael eu tynnu o'r gwastraff gweddilliol. Dylai gwastraff gweddilliol heb fwyd, nwyddau hylendid amsugol a deunydd ailgylchu sych fod yn isel o ran swm ac yn annhebygol o achosi arogleuon os na fyddant yn cael eu casglu am gyfnod.

### *Ecolabeli.*

Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod y rhan y mae ecolabeli yn ei chwarae i ddarparu gwybodaeth i ddefnyddwyr. Fodd bynnag, mae nifer o gynlluniau labelu sefydledig yn bodoli, gan gynnwys Ecolabel yr UE, ac rydym yn teimlo ei bod yn fwy priodol annog defnyddwyr i ddefnyddio'r rhain yn hytrach na datblygu label newydd yng Nghymru.

<sup>1</sup> Cynhaliwyd dau asesiad cylch bywyd yn 2005 (Asiantaeth yr Amgylchedd) ac yn 2008 (Asiantaeth yr Amgylchedd ar y cyd â WRAP a Defra).

<sup>2</sup> *Rhaglen Newid Ymddygiad Cyhoedd Cymru – Adroddiad Terfynol – Modiwl 2: Behaviours and Potential Adoption*. AD Research and Social Marketing Practice, Mehefin 2011.

### *Systemau Rheoli Amgylcheddol*

Mae Systemau Rheoli Amgylcheddol yn darparu fframwaith i sefydliadau gynllunio, rheoli a gwella eu perfformiad amgylcheddol. Nid ydynt yn canolbwyntio ar effeithlonrwydd gwastraff nac adnoddau, ond maent yn cwmpasu amrywiaeth eang o effeithiau amgylcheddol. Bydd effaith mabwysiadu Systemau Rheoli Amgylcheddol ar y gwastraff a gynhrychir gan sefydliad yn cael ei hystyried fel rhan o'r arfarniad o opsiynau i ddatblygu rhaglen Effeithlonrwydd Adnoddau Busnes i fusnesau bach a chanolig.

### Sylwadau a phryderon eraill

Aeth y sylwadau eraill i'r afael ag amrywiaeth eang o faterion. Rydym yn ystyried yr holl ymatebion wrth ddatblygu'r rhaglen a phrosiectau gweithredu.

## **Rhestr Lawn o Ymatebwyr**

### **Sefydliadau Cynrychioli Busnes**

Cymdeithas Diodydd Meddal Prydain  
Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff Cymru  
Ffederasiwn Busnesau Bach  
Ffederasiwn Bwyd a Diod  
ICE Wales Cymru  
Ffederasiwn Deunydd Pacio  
Cymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol Cymru  
Consortiwm Manwerthu Cymru  
Ffederasiwn y Diwydiant Paneli Pren

### **Ymgynghoriaeth**

Oakdene Hollins

### **Corff Anllywodraethol Amgylcheddol**

Cyfeillion y Ddaear Cymru

### **Y Sector Cyhoeddus**

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili  
Cyngor Caerdydd  
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)

### **Y Sector Preifat**

BOC Limited  
Dŵr Cymru  
EEESafe Ltd  
GroundCover D.B.M. Limited  
Novamont SpA  
Tata Steel  
The Level Crossing  
TH.INC.  
Valero  
Valpak  
Williams a Williams Cyf.

### **Mentrau Cymdeithasol/Elusennau**

Sefydliad Prydeinig y Galon  
Cylch: Community Resource Cymru

### **Sefydliad sy'n darparu a ariennir gan Lywodraeth Cymru**

Cyfoeth Naturiol Cymru  
Canolfan Ecoddylunio Cymru  
WRAP Cymru